



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Rheoliadau Datblygu Gwledig (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2018

**DYDDIAD** 3 Rhagfyr 2018

**GAN** Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

### Rheoliadau Datblygu Gwledig (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2018

#### Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Cyfarwyddeb gan y Cyngor Rhif 129/2007.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau canlynol gan yr Undeb Ewropeaidd:

- Rheoliad gan y Cyngor (EEC) Rhif 2078/92;
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) 746/96;
- Rheoliad gan y Cyngor (EC) 1257/1999;
- Rheoliad gan y Cyngor (EC) 1698/2005;
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) 1974/2006;
- Rheoliad gan y Comisiwn (UE) 65/2011;
- Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013;
- Rheoliad (UE) Rhif 1310/2013.

#### Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae amaethyddiaeth yn fater datganoledig.

Ni chaiff unrhyw swyddogaethau deddfwriaethol eu trosglwyddo gan yr offeryn hwn. Os bydd angen i swyddogaethau o'r fath gael eu trosglwyddo bydd offeryn ar wahân yn ymdrin â hynny.

Mae'r pwerau gweinyddol a gaiff eu harfer gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â datblygu gwledig yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod perthnasol (Gweinidogion Cymru) yn ddilyffethair.

#### Diben y diwygiadau

Mae effaith yr Offerynnau Statudol hyn yn gyfyngedig o ran galluogi Rheoliadau'r UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol os na fydd unrhyw gytundeb adeg ymadael â'r UE. Gwneir hyn er mwyn galluogi'r rhaglenni presennol yn y DU a gyllidir ar hyn o bryd gan

Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig i barhau i weithredu yn yr un modd am weddill cyfnod rhaglen 2014-2020.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-rural-development-amendment-eu-exit-regulations-2018>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.